18 Llanferres-Maeshafn

Coed, Creigiau a Thir Amaeth

Pellter: 6.4km / 4 milltir

Amser: Tua 2 - 2.5 awr

Parcio a chychwyn: Cilfan Plymog, ffordd A494 i'r De o Lanferres

Cyf. Grid: SJ187598, Map OS Explorer 265

Graddfa: Cymedrol (ychydig o ddringo)

Cyfleusterau: The Miners Arms, Maeshafn, The Druid Inn, Llanferres

Woodland, crags and rolling farmland

Distance: 6.4km / 4 miles

Time: Allow 2 - 2.5 hours

Parking and start: Plymog layby on A494 south of Llanferres

Grid ref: SJ187598, Explorer map 265

Grade: Moderate (some gentle ascent)

Facilities: The Miners Arms, Maeshafn, The Druid Inn, Llanferres



Y Daith Gerdded

1. O'r gilfan parcio, croeswch y gamfa a dilyn arwydd Bryn Alun. Ewch ar hyd y llwybr amlwg wrth ochr y gwrych. Croeswch y nant ac ewch ymlaen ar y llwybr drwy'r giât sy yn y gornel dde. Dilynwch y llwybr wrth ochr y gwrych, a chroesi camfa arall a'r nant. Dal ymlaen ar y llwybr amlwg hwn gan fynd heibio'r creigiau sy ar y llaw chwith. Mynd drwy ddwy giât/camfeydd ac ymlaen ar y llwybr gan gyrraedd tai sy ar y llaw dde.

2. Wrth y tai, ewch drwy'r giât (sy ar agor yn arferol) ac yna troi i'r chwith i mewn i'r coed (arwydd 'Maeshafn'). Dringo'n serth i fyny'r bryn ar lwybr cul drwy'r coed. Ymlaen drwy'r coed gan gadw'r un cyfeiriad am tua 1 filltir / 1.6km ar lwybr naturiol sy'n troi'n garegog wedyn. Anwybyddwch y llwybrau ar y chwith ac ar y dde, a dilynwch arwyddion Maeshafn. Ar ôl y giât/camfa trowch i'r dde ar hyd ffordd y goedwigaeth ac ewch ymlaen arni i'r ffordd darmac.

3. Wedi cyrraedd y ffordd, gallwch droi naill ai i'r dde i bentref Maeshafn a'r Miners Arms neu ewch i lawr yr allt i'r chwith. Cyn cyrraedd y tŷ cyntaf, trowch i'r chwith ar hyd y dreif (arwydd llwybr cyhoeddus). Ewch drwy'r giât sydd o'ch blaen ac yna trowch ar unwaith i'r dde drwy'r ail giât ac i'r cae. Croeswch y cae a dringwch y gamfa ysgol sy yn y gornel chwith ar ben y cae. Ewch dros y cae nesaf at gamfa ysgol arall ac i mewn i'r coed. Cerddwch drwy'r goedlan a dros gamfa ysgol arall i mewn i'r cae. Cerddwch ar draws gornel chwith y cae gan chwilio am gamfa ar ddiwedd y wal gerrig. Croesi'r gamfa hon (anwybyddu'r gamfa sy o'ch blaen) a throi ar unwaith i lawr i'r dde ar hyd llwybr suddedig. Dilyn y llwybr llydan hwn gan fynd drwy'r giât a dros yr afon nes dod at y ffordd fawr.

4. Croeswch y ffordd fawr yn ofalus ac ewch ymlaen i fyny'r ffordd fach gyferbyn sy wrth ochr The Druid Inn. Cerddwch i fyny'r ffordd hon, gan fynd heibio tai a gwyro i'r chwith. Pan ddaw'r ffordd i ben, ewch ymlaen drwy giât ac ar hyd y dreif gan fynd heibio tai ar eich llaw dde. Ar ddiwedd y llwybr, gan anwybyddu'r gamfa sy o'ch blaen, trowch i'r dde drwy'r giât ac i'r cae (arwyddion saethau glas a melyn). Cerddwch i fyny'r bryn gan gadw'r ffens ar eich llaw chwith, yna trowch i'r chwith drwy'r giât sy'n rhan o'r

Llanferres-Maeshafn

AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB

ffordd i fyny'r bryn. Cerddwch ar hyd ymyl chwith y cae ac ymlaen heibio tŷ sy ar y chwith. Ewch drwy giât arall yn syth ar ôl mynd heibio'r tŷ. Daliwch ymlaen gan gadw'r ffin ar eich llaw chwith. Trowch i'r chwith a mynd drwy'r giât, cerdded i lawr y cae i ymuno a'r dreif goncrit o'r tŷ. Dilynwch y dreif ar i lawr. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd a dilyn y llwybr llydan i'r ffordd fawr. Croeswch y ffordd gyda gofal yn ôl i'ch man cychwyn.

The Walk

1. From the lay-by cross the stile, signposted Bryn Alyn, and follow the clear path alongside the hedge. Cross the stream and continue along path through a gate in the right hand corner of the field. Follow path alongside the hedge, cross another stile and stream. Continue ahead on the clear path, passing cliffs on left. Go through two gates/ stiles and continue on path as it skirts round houses on the right.

2. Go through a gate (usually open) beside the cottages and turn left by a wooden waymarker, signed Maeshafn, into the woodland. Climb steeply uphill on a narrow natural path through the trees. Continue through the woodland in the same direction for approximately 1 mile / 1.6km, first on a natural path and later on a stony track, ignoring paths on the left and the right and following signs for Maeshafn. After a gate/stile turn right onto a track and continue to the road.

3. At the road either, turn right to detour into Maeshafn village and the Miners Arms pub, or turn left and walk downhill on the road. Just before the first house on the left turn sharp left along a drive, signed as a footpath. Go through the gate ahead and then turn immediately right through a second gate into a field. Cross the field to a ladder stile in the top left hand corner then continue across the next field and climb a ladder stile into woodland. Walk through the woods and cross another ladder stile into a field. Walk across to left hand field corner to find the stile at the end of the stone wall. Cross stile and turn immediately right down a sunken path, ignoring the stile ahead. Follow the track downhill going through a gate and over the river.

4. When the track reaches the main road cross with care and continue up the road opposite, alongside the Druid Inn. Walk up the road, passing housing and bending to the left. Where the road ends continue ahead through a gate and along a drive, passing cottages on the right. At the end of the path turn right through a gate into a field (marked with blue and yellow arrows), ignoring the stile ahead. Walk uphill along the left-hand fenceline then turn left through a gate partway up the hill. Walk along the left-hand edge of the next field and continue past a house on the left. Go through another gate just past the house and continue ahead along the left-hand fenceline. Turn left through a gate and walk down field to join the concrete drive from the house. Follow this drive down the hill. Turn left at a junction and follow the track down to the main road. Cross the road with care to return to your starting point.

*Ceir croeso cynnes i gerddwyr ac i feicwyr yn **The Druid Inn**, Llanferres. Mae'n darparu dewis eang o fwyd yn ystod amser cinio a gyda'r hwyr. Ceir gwely a brecwast hefyd. Ffôn: 01352 810225, gwefan: www.druidinn.com*

***The Druid Inn** offers a warm welcome to walkers and cyclists and serves a wide range of food every lunchtime and evening. It also offers bed and breakfast. Tel: 01352 810225, website: www.druidinn.com*

*Roedd y mwynwyr yn cael eu talu yn y **Miners Arms**, gan dderbyn 'talis' i'w gwario yn siopau perchnogion y mwynglawdd yn unig! Cartref i deulu mwynwr oedd yr ystafell fwyta bresennol, a storfa ffrwydron oedd yr adeilad isel gyferbyn. Erbyn heddiw mae'n dafarn Theakston glyd sy'n darparu bwyd cartref. Ffoniwch 01352 810464 am yr oriau agor.*

*Miners used to collect their wages at the **Miners Arms**, paid in 'tallies' that could only be used in the mine owner's shops! The present dining area was a mineworker's cottage and the low building opposite was a dynamite store. Nowadays it is a cosy Theakston's pub serving home-cooked food. Tel: 01352 810464 for opening hours.*

Cloddio am blwm

Roedd y calchfaen o dan y tir yn llawn o fwynau metal, yn enwedig plwm, a bu mwyngloddio'n ddiwydiant pwysig tan ddechrau'r 20fed ganrif. Roedd mwynglawdd Maes-y-safn yn un o'r rhai enwocaf yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan gyflogi dros 400 o weithwyr. Daeth enw pentref Maeshafn o enw'r mwynglawdd. Tyfodd y pentref yn gyflym yn ystod yr 19eg ganrif pan roedd cloddio ar ei anterth. Adeiladwyd y capel sy ynghanol y pentref ddwywaith a'i ymestyn yn ystod y cyfnod hwn er mwyn gwasanaethu'r boblogaeth oedd yn cynyddu. Mae nifer o dai'r mwynwyr wedi goroesi. Cerddai rhai mwynwyr o bentref cyfagos Llanferres dros y bont a elwir yn Bont y Mwynwyr, gan groesi'r Afon Alun. Yn ôl bob tebyg, byddai'r ardal hon yn llai gwyrdd o lawer yr adeg honno am fod llygredd plwm yn lladd y tyfiant.

***Eglwys Santes Ferres,** Llanferres. Eglwys ganoloesol oedd hon yn wreiddiol, ond ail-adeiladwyd yn 1774. Catherine Jones, tirfeddiannwr cyfoethog o Blas Colomendy cyfagos a dalodd am y rhan fwyaf o'r gwaith.*

Lead mining

The underlying limestone rock was rich in metal ores, particularly lead, and mining was an important industry until the early 20th century. Maes-y-safn mine was one of the most famous in north-east Wales, employing over 400 men. Maeshafn village took its name from the mine and grew considerably during the 19th century when mining was at its peak. The chapel in the village centre was built and enlarged twice during this period to serve the rapidly growing community and several miners' cottages still remain. Other miners walked from nearby Llanferres via a bridge, known as Miners' Bridge (Pont y Mwynwr), crossing the River Alyn. The area was reputedly far less green then as the lead pollution killed much of the vegetation!

***St Berres Church,** Llanferres, was originally medieval but was rebuilt in 1774, largely funded by Catherine Jones, the wealthy owner of nearby Colomendy Hall.*